enquiries@ashwales.co.uk
ashcymru
FFEITHIAU AC YSTADEGAU
tel: 029 2064 1101

COST ECON0MAIDD YSMYGU YNG NGHYMRU

- ✓ Yn 2007/08 cost amcangyfrifedig ysmygu i GIG Cymru oedd £386 miliwn; swm sy'n gyfwerth â £129 y pen ac sy'n 7% o'r holl wariant ar ofal iechyd yng Nghymru.[1]

- ✓ Gwarir 67% o'r cyfanswm ar ofal eilaidd a 33% ohono ar ofal sylfaenol. Gwarir £235.6 miliwn ar dderbyniadau i ysbytai, £21.5 miliwn ar ymweliadau gan gleifion allanol, £43.1 miliwn ar ymgynghoriadau â meddygon teulu, £6.2 miliwn ar ymgynghoriadau â nyrsys practis a £79.3 miliwn ar bresgripsiynau.[2]

- ✓ Mae ysmygu yn gyfrifol yn gyffredinol, ar amcangyfrif, am y canrannau a ganlyn: 22% o gostau derbyn oedolion i ysbytai, 6% o gostau cleifion allanol, 13% o gostau ymgynghoriadau â meddygon teulu, 12% o gostau ymgynghoriadau â nyrsys practis a 14% o gostau presgripsiynau.[3]

- ✓ Nid yw'r costau hyn yn ystyried y costau o:

- Golli cynhyrchiant
- Colli ansawdd bywyd yng Nghymru
- Tanau
- Triniaeth ddeintyddol

Y GOST I DDIWYDIANT

- ✓ Mae ysmygu'n arwain at golli cynhyrchiant oherwydd seibiannau ysmygu a mwy o absenoliaeth ymhlith ysmygwyr oherwydd afiechyd.

- ✓ Bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr, collir oddeutu 34 miliwn o ddiwrnodau oherwydd absenoldeb salwch a achosir gan ysmygu.

- ✓ Cost amcangyfrifedig absenoliaeth o'r gwaith a achoswyd gan ysmygu yng Nghymru (prisiau 2003) oedd £23.28 miliwn.[4]

[1] Phillips, C a Bloodworth, A. (2009). The cost of smoking to the NHS in Wales. ASH Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon.
[2] Phillips, C a Bloodworth, A. (2009). The cost of smoking to the NHS in Wales. ASH Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon.
[3] Phillips, C a Bloodworth, A. (2009). The cost of smoking to the NHS in Wales. ASH Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon.
[4] Cohen, D a Lisles, C. (2005). Modelling the Impact of a Ban on Smoking in Public Places in Wales (heb ei gyhoeddi).

- ✓ Cost difrod gan danau y gellid eu priodoli i ysmygu yng Nghymru (prisiau 2003) oedd £5.95 miliwn.[5]

Y GOST I YSMYGWYR

- ✓ Bydd unigolyn sy'n ysmygu 20 sigarét y diwrnod yn gwario oddeutu £2000 y flwyddyn ar sigaréts.

[5] Cohen, D a Lisles, C. (2005). Modelling the Impact of a Ban on Smoking in Public Places in Wales (heb ei gyhoeddi).